Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Hwyaid lledaenu

# hwyaidlledaenu

Mae Facebook yn allwedd i'r gynulleidfa cyfryngau cymdeithasol fwyaf a mwyaf amrywiol yn y byd. Gallwch chi rannu'ch ymchwil trwy dudalennau cyhoeddus, neu â chymunedau penodol trwy grwpiau preifat.

## Ambell air i gall ar gyfer Facebook

- Cwblhewch eich proffil yn llawn i fachu sylw mwy o bobl
- Ymunwch â grwpiau cyhoeddus a phreifat i gyrraedd cynulleidfaoedd â diddordebau ymchwil tebyg
- Postiwch yn aml a dwyn sylw at eich cyflawniadau
- Postiwch bob math o gynnwys – mae modd rhannu ffotograffau, fideos, dogfennau a dolenni
- Mesurwch faint o bobl rydych chi'n eu cyrraedd trwy Facebook Analytics
- Crëwch gymuned – dilyn ac ymgysylltu â defnyddwyr eraill yn eich maes

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:**

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk

02920 230 457

@YmchwilCymru

ymchwiliechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Facebook

# Peidiwch â gadael eich ymchwil ar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwil wedi'i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae'n rhaid i bobl allu ymdeimlo â'r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwil...

Eich stori ymchwil

Meddyliwch am eich cynulleidfa. Pwy ydyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw?

Cadwch bethau'n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi'n annog cynulleidfaoedd i ddysgu am eich ymchwil.

Beth ydy effaith eich ymchwil i'ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy'ch ffactor 'wow'? Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd orau'n creu emosiwn i'w cynulleidfa – dewch o hyd i'r 'wow' yn eich stori chi.

Mae cynulleidfaoedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy'r stori y tu cefn i'ch prosiect ymchwil?

I gael gwybod mwy, ewch i'r Map Trywydd Ymchwil yn ymchwiliechydagofalcymru.llyw.cymru